**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd,

**Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod.

**A yw blaenoriaethau iechyd a gofal Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r heriau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru?**

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu nifer o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r gweithlu, integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gofal cymunedol a symud tuag at atal, gwella gwasanaethau iechyd meddwl, a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mewn perthynas â'r holl flaenoriaethau hyn fodd bynnag, credwn fod angen rhoi llawer mwy o sylw i allu'r system iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiweddar cyhoeddais Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg sy'n pwysleisio pwysigrwydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r adroddiad yn cydnabod y newid sylweddol sydd wedi bod yn nhirwedd polisi a deddfwriaeth y Gymraeg o fewn y sector iechyd a gofal dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys datblygiad cynllun Mwy na Geiriau (MNG) Llywodraeth Cymru, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r dyletswyddau sy'n deillio o osod safonau'r Gymraeg ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol.

Er gwaethaf y datblygiadau arwyddocaol hyn mae'r adroddiad yn casglu bod darpariaeth glinigol cyfrwng Cymraeg yn parhau'n anghyson ac yn annigonol. Mae cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg hyd yma wedi bod yn raddol ac yn ddarniog, ac nid oes sicrwydd o bell ffordd y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gofal yn eu hiaith. Mae hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar brofiad ac iechyd unigolion.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Yn ddiweddar cyflwynais ddogfen gyngor i Weinidogion Cymru sy'n amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n atodi'r cyngor hwnnw i'r llythyr hwn. Mae'r sylwadau isod i raddau helaeth yn adlewyrchu'r cyngor hwn ac yn amlinellu'r hyn y dylai'r Llywodraeth ei flaenoriaethu o ran y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n edrych ymlaen at drafod y cyngor gyda'r Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal yn fuan.

**A oes unrhyw flaenoriaethau pwysig ar goll?**

Mae'r Llywodraeth newydd wedi ymrwymo i wella darpariaeth gwasanaeth iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mynediad at ofal sylfaenol, gwasanaethau niwroamrywiaeth, therapi iaith a lleferydd, a chymorth iechyd meddwl. Bydd y gwaith o adolygu a diwygio cynllun gweithredu MNG yn allweddol yn y cyd-destun hwn. Dylai'r pwyllgor felly gynnwys blaenoriaeth benodol sy'n ymwneud â chynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'i raglen waith yn ystod y Senedd hon. Gweler ein hymateb i gwestiwn olaf yr ymgynghoriad am fwy o fanylder ynghylch sut gall y Pwyllgor wneud hyn.

Un flaenoriaeth arall bwysig sydd ar goll yw'r gwaith o ddiwygio gofal sylfaenol a gwasanaethau meddygon teulu yng Nghymru, ac fel rhan o hynny ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn.

**Beth yw'r prif rwystrau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a mesur cynnydd?**

Nid diffyg polisi yw'r brif broblem bellach, ond diffyg gweithredu effeithiol, atebolrwydd a chapasiti.

Ymhlith y prif rwystrau mae:

- Er bod uchelgais ac ymrwymiadau cynllun MNG i'w croesawu, nid yw'n amlwg bod amcanion ac ymrwymiadau lefel uchel y strategaeth bob tro yn arwain at weithredu ymarferol ar lawr gwlad. Ar hyn o bryd mae diffyg mecanweithiau ymarferol i drosi strategaeth lefel uchel yn newid ymarferol ar lawr gwlad.
- Diffyg eglurder ac atebolrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad ymarferol cynllun MNG mewn meysydd clinigol penodol.
- Heriau parhaus o ran capasiti'r gweithlu ac argaeledd gweithwyr sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol, gan gynnwys hefyd hyder unigolion i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth weithio.
- Tuedd bod y dull presennol yn annog gwneud ychydig bach o bopeth, yn hytrach na chanolbwyntio adnoddau prin ar feysydd penodol a phwysig lle byddai sicrhau cynnydd ystyrlon yn realistig.
- Diffyg trefniadau llywodraethiant digon cadarn ac effeithiol. Mae angen mwy o eglurder o ran cyfrifoldebau a dulliau o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau sy'n arwain o ran y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal, gan gynnwys yn benodol

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llywodraeth Cymru a thîm MNG, Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg.

**Beth ddylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arno i wneud y gwahaniaeth mwyaf?**

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y strategaethau, y dyletswyddau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal, mae'n rhaid hefyd ystyried y Gymraeg fel elfen ganolog o ddatblygiad a gweithrediad pob deddfwriaeth a pholisi yn y maes hwn. Credwn felly fod angen i'r Pwyllgor brif ffrydio'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg i bob un o feysydd blaenoriaeth y Llywodraeth ac wrth graffu ar bob elfen o ddeddfwriaeth a pholisi fydd yn dod gerbron y Pwyllgor.

Yn benodol, awgrymwn y dylai'r pwyllgor flaenoriaethu'r materion isod:

- Craffu ar adolygiad Llywodraeth Cymru o strategaeth Mwy na Geiriau gan sicrhau bod y cynllun diwygiedig yn canolbwyntio ar wasanaethau clinigol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gofal sylfaenolyn blaenoriaethu nifer llai o faterion allweddol, ac yn cynnig mecanweithiau pendant ar gyfer ymgorffori newid ar lawr gwlad.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, craffu ar drefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chydweithio ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol o safbwynt cynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sut mae'r Llywodraeth ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn integreiddio'r Gymraeg fel rhan greiddiol o ddatblygu strategaeth gweithlu hir dymor ar gyfer y sector iechyd a gofal.
- Archwilio sut mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau cenedlaethol yn defnyddio eu prosesau cynllunio strategol, gan gynnwys cynlluniau 5 mlynedd Safon 110, i gynyddu capasiti gwasanaethau Cymraeg a sicrhau gwell canlyniadau i gleifion. Craffu yn benodol ar gynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth megis iechyd meddwl, dementia, anableddau dysgu, strôc a therapi iaith a lleferydd.
- Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu strategaeth ddigidol a data 10 mlynedd, pa gamau mae'r Llywodraeth a sefydliadau perthnasol eraill yn cymryd er mwyn hwyluso cofnodi anghenion iaith defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal.
- Archwilio sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Gymraeg fel rhan ganolog o'r rhaglen waith ar gyfer diwygio gofal sylfaenol a gwasanaethau meddygon teulu yng Nghymru.
- Fel rhan o sefydlu gwasanaeth gofal cenedlaethol dylid rhoi sylw neilltuol i'r graddau mae'r Gymraeg ac anghenion ieithyddol poblogaethau lleol yn cael ei ystyried yn ddigonol wrth gynllunio, cyllido a chomisiynu gwasanaethau gofal. Yn rhan o hyn dylai'r Pwyllgor graffu ar y graddau mae gofynion Deddf Gwasanaethau

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu'n effeithiol, yn enwedig mewn perthynas ag asesu anghenion y boblogaeth a chomisiynu gwasanaethau.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i chi gynllunio gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yn gywir

**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg